# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(74)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd cwestiynau 1-3, 5 a 7-15. Tynnwyd cwestiynau 4 ac 6 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:22.

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Lansio'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Fframwaith Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig

Dechreuodd yr eitem am 14:33.

### 4. Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Hygyrchedd i Gyfreithiau Cymru a Datblygu Llyfr Statud i Gymru – y wybodaeth ddiweddaraf

Dechreuodd yr eitem am 15:17.

### 5. Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012

Dechreuodd yr eitem am 16:01

**NDM5019 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mai 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol**

Dechreuodd yr eitem am 16:14.

**NDM5002 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai darpariaethau'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu hystyried gan Senedd y DU.
Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii)

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Canlyniad y bleidlais:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 11 | 14 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**7. Dadl ar Ddiwygio Gwasanaethau Cyhoeddus**

Dechreuodd yr eitem am 16:38

**NDM5018 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Agenda Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y pwysigrwydd bod Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i hybu ymhellach y broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy, effeithlon ac o ansawdd, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr ledled Cymru.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y manteision o symleiddio gwasanaethau cyhoeddus o dan un cynllun integredig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw darpariaeth gwasanaeth yn cael ei lleihau na'i hisraddio drwy'r broses hon.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 41 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd ym mhob agwedd ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu hyder y cyhoedd yng nghyswllt cyflenwi holl ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 9 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo ac i drosglwyddo'r cyllid hwn i'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'i Hagenda Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y costau i gyflenwi'r Compact ar gyfer Newid yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru ac nid gan awdurdodau lleol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 9 | 27 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at sefydlu gwasanaeth cyhoeddus penodol i Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM5018 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Agenda Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

Yn cydnabod y pwysigrwydd bod Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i hybu ymhellach y broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy, effeithlon ac o ansawdd, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr ledled Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd ym mhob agwedd ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu hyder y cyhoedd yng nghyswllt cyflenwi holl ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo ac i drosglwyddo'r cyllid hwn i'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'i Hagenda Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at sefydlu gwasanaeth cyhoeddus penodol i Gymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **52** | **0** | **0** | **52** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.30

Daeth y cyfarfod i ben am 17:33

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 27 Mehefin 2012**